Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ystadegau Medr

## Ansawdd a Methodoleg: Hynt Graddedigion, 2022/23

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/14/2025 – **Atodiad A** |
| **Dyddiad:** | 23 Gorffennaf 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Gwybodaeth am ansawdd a chynhyrchu'r cyhoeddiad 'Hynt Graddedigion, 2022/23' |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Arolwg Hynt Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Ffynhonnell y data ..... 2

Arolwg Hynt Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ..... 2

Talgrynnu ..... 2

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ..... 2

Perthnasedd ..... 2

Cywirdeb ..... 2

Amseroldeb a phrydlondeb ..... 3

Hygyrchedd ac eglurder ..... 3

Cymharedd a chydlyniad ..... 3

Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ..... 3

# Ffynhonnell y data

### Arolwg Hynt Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Arolwg yw Hynt Graddedigion HESA, a ddechreuodd gyntaf gyda phoblogaeth graddedigion blwyddyn academaidd 2017/18. Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth am weithgareddau a safbwyntiau graddedigion oddeutu 15 mis ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau addysg uwch (AU).

Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth gan raddedigion darparwyr AU ledled y DU. Fodd bynnag, mae'n hadroddiad ni'n canolbwyntio ar raddedigion o ddarparwyr AU yng Nghymru, ac ar raddedigion yr oedd eu cyfeiriad ar adeg mynediad i'w cwrs yng Nghymru ni waeth ble yn y DU y gwnaethant astudio.

# Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir cyfansymiau ar ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna fe'u talgrynnir i'r 5 agosaf felly efallai na fyddant yn hafal i swm y rhannau cyfansoddol.

Cyfrifir canrannau gan ddefnyddio ffigyrau heb eu talgrynnu ac fe'u talgrynnir i'r ganran gyfan agosaf. Gall hyn olygu efallai nad yw'r canrannau yn y datganiad hwn yn cyfateb i'r hyn y byddech chi'n ei gyfrifo o'r ffigyrau wedi'u talgrynnu. Os cyfrifir canran lle mae'r enwadur yn llai na 22.5 yna ni ddangosir y ganran.

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae HESA wedi cynhyrchu Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr arolwg Hynt Graddedigion a gyhoeddir ar eu gwefan. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd yr arolwg yn ôl pum dimensiwn ansawdd a nodir yn System Ystadegol Ewrop, sef perthnasedd, cywirdeb, amseroldeb a phrydlondeb, hygyrchedd ac eglurder, a chydlyniad a chymharedd.

### Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n darparu gwybodaeth lefel uchel am ganlyniadau'r arolwg Hynt Graddedigion ar gyfer graddedigion o ddarparwyr addysg uwch Cymru, ac ar gyfer graddedigion o Gymru a astudiodd ledled y DU.

### Cywirdeb

Arolwg ar raddfa poblogaeth yw'r arolwg Hynt Graddedigion yn yr ystyr ei fod yn ceisio casglu ymatebion gan y ffrâm samplu gyfan. Fodd bynnag, fel gyda'r rhan fwyaf o arolygon nid oes cyfradd ymateb o 100%. Roedd cyfradd ymateb arolwg Hynt Graddedigion 2022/23 yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. I helpu defnyddwyr y data i ddeall y mater hwn, mae HESA wedi cynnwys gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol yn y Canllawiau i Ddefnyddwyr ar eu gwefan.

Mae HESA wedi canfod bod y data'n cynrychioli'r boblogaeth at y rhan fwyaf o ddibenion ystadegol ac yn asesu a oes angen pwysoli'r data o gwbl bob pum mlynedd oni bai bod tystiolaeth i awgrymu bod angen asesiad cynharach.

Mae'r mwyafrif o'r data yn yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn Nata Hynt Graddedigion Addysg Uwch HESA hefyd, a ddynodwyd yn Ystadegau Swyddogol Achrededig. Yr eithriad i hyn yw'r data yr ydym wedi'i gyflwyno am y wlad y mae ymatebwyr yn gweithio ynddi lle'r ydym wedi defnyddio'r un newidynnau ag a ddefnyddir gan HESA, ond gan gwmpasu poblogaeth ychydig yn wahanol trwy gynnwys y rhai sydd o ac yn gweithio'r tu allan i'r DU.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Wrth ddylunio'r arolwg Hynt Graddedigion fe benderfynodd HESA a'i gwsmeriaid statudol gael bwlch o 15 mis rhwng graddio a chasglu data i daro cydbwysedd rhwng argaeledd data defnyddiol ar yrfaoedd, gallu cyflawni cyfradd ymateb uchel a gallu cyhoeddi data sy'n dal yn berthnasol.

Ar gyfer yr adroddiad hwn a gyhoeddir gan Medr, rydym wedi trefnu ei fod ar gael cyn gynted â phosibl yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r arolwg Hynt Graddedigion gan HESA, ac yn unol â gweithdrefnau Medr ar weld ystadegau cyn eu rhyddhau.

### Hygyrchedd ac eglurder

Cafodd y datganiad ystadegol hwn ei gyhoeddi rhag blaen ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn yr adran Ystadegau ar wefan Medr.

Cyhoeddir yr adroddiad fel PDF gyda llyfr gwaith i gyd-fynd ag ef sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r llyfr gwaith yn dilyn canllawiau hygyrchedd.

### Cymharedd a chydlyniad

Mae gwefan Data Agored HESA yn cynnwys canlyniadau Hynt Graddedigion ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau o'r arolwg Hynt Graddedigion cyntaf a oedd yn bwrw golwg ar raddedigion o flwyddyn academaidd 2017/18 i'w gwneud yn bosibl dwyn cymariaethau dros amser a rhwng darparwyr ledled y DU.

Fe wnaeth yr arolwg Hynt Graddedigion ddisodli'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch blaenorol ac mae'n wahanol mewn nifer o ffyrdd sy'n golygu nad yw canlyniadau'r ddau arolwg yn gallu cael eu cymharu'n uniongyrchol.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Ffynhonnell y data ar gyfer yr wybodaeth hon yw arolwg Hynt Graddedigion HESA. Mae HESA yn cyhoeddi'r canlyniadau fel Ystadegau Swyddogol Achrededig ar eu gwefan. Mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau yn yr adroddiad yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddir gan HESA. Yr eithriad i hyn yw'r data sy'n edrych ar y wlad y mae'r ymatebwyr yn gweithio ynddi lle rydym wedi defnyddio poblogaethau ychydig yn wahanol.

Mae HESA yn cyhoeddi gwybodaeth am fethodoleg yr arolwg ac adroddiad ansawdd ar eu gwefan. Cynhyrchir adroddiad 'Hynt Graddedigion, 2022/23' Medr gan ddadansoddwyr ystadegol sy'n gwneud gwiriadau ychwanegol i adnabod a deall unrhyw faterion.

### Gwerth

Mae'r ystadegau hyn yn darparu mewnwelediad i hynt graddedigion o ddarparwyr addysg uwch Cymru, a graddedigion o Gymru a astudiodd ledled y DU. Mae cynhyrchu'r ystadegau hyn yn helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae myfyrwyr yn ei wneud ar ôl eu hastudiaethau a pha un a ydynt yn teimlo bod eu hastudiaethau wedi bod o fudd.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government